

## Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru

# BWRDD COMISIYNU GOGLEDD CYMRU



### CEFNDIR

Mae'r Bwrdd integredig yn cael ei gadeirio gan Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdod Lleol, ac mae'n adrodd i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.

Mae'r Bwrdd yn cyfarfod bob dau fis ac maent yn gyfrifol am faterion comisiynu strategol sydd angen mynd i'r afael â nhw'n rhanbarthol.

**Yr amcan yn eang** yw ychwanegu gwerth at drefniadau comisiynu lleol sy'n awyddus i sicrhau bod darpariaeth gofal a chefnogaeth yng Ngogledd Cymru yn gynaliadwy, ac yn darparu 'beth sy'n bwysig' i unigolion gyda safonau da o ansawdd a diogelwch.

**Mae'r cynllun gwaith ar gyfer 2018/19** yn cynnwys y deilliannau canlynol:

- Ffurfioli trefniadau Comisiynu Partneriaeth ar draws y rhanbarth
- Mae darpariaeth cartrefi nyrsio a phreswyl Gogledd Cymru yn gynaliadwy ac yn cynnig ansawdd da a gofal a chefnogaeth ddiogel
- Mae'r farchnad Gofal Cartref yn gynaliadwy, yn cynnig canlyniadau ansawdd bywyd i bobl a gefnogir i fyw gartref a chefnogir Darparwyr i ddatblygu eu darpariaeth
- Mae ystod o ddewisiadau cefnogaeth gwerth am arian ar gael ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gyda mwy o gapasiti mewn modelau cefnogaeth a ffefrir, gyda'r gallu i fodloni angen cyfredol ac arfaethedig nas diwallwyd
- Mae Rheolaeth Contract ac Ansawdd yn effeithlon ac yn effeithiol ac wedi'i gydgyssylltu gymaint â phosibl ar draws lechyd a Gofal Cymdeithasol yng Ngogledd Cymru
- Mae Bwrdd Comisiynu Gogledd Cymru'n cynnal trosolwg o, ac yn cyfrannu at waith (perthnasol) comisiynu lleol, rhanbarthol a chenedlaethol eraill

**Yn 2017/18 roeddem yn llwyddiannus** yn darparu:

- ✓ Tendr cydweithrediadol (ar ran y 7 sefydliad partner) ar gyfer Cytundeb Gofal Cartref Gogledd Cymru sy'n seiliedig ar ddeilliannau
- ✓ Ffioedd mynegol cartref gofal llawer cynt yn y flwyddyn gan sicrhau agwedd o ennyn diddordeb gwell ymysg Darparwyr.
- ✓ Fframwaith monitro ansawdd drafft ar gyfer gwasanaethau gofal a chefnogaeth (rydym yn arbrofi hyn yn 2018/19)

### BLAENORIAETHAU'R BWRDD

**Mae gan y Bwrdd 4 prif brosiect ar y gweill yng Ngogledd Cymru:**

- Sicrhau marchnad cartref gofal cynaliadwy**
- Datblygu dulliau gweithredu yn seiliedig ar ddeilliannau i gomisiynu gofal cartref a chefnogaeth i unigolion**
- Datblygu dewisiadau gofal a chefnogaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal**
- Gweithgor ffioedd gofal (mewn partneriaeth gyda Fforwm Gofal Cymru)**

### DATBLYGIADAU DIWEDDAR

Rydym wedi:

- ✓ Cyhoeddi ein Datganiad Siapio'r Farchnad ar gyfer Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn yng Ngogledd Cymru
- ✓ Gweithdrefnau a lluniwyd ar y cyd ar gyfer gofal wedi'i gontractio a gwasanaethau cynnal ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion:
  - Gan sicrhau gwasanaethau o ansawdd
  - Ymateb i beryglon cynyddol neu bryderon (yn cynnwys 'polisi embargo')Byddwn yn cynnwys 'rhain yn nogfennau contractau yn y dyfodol. Rydym wedi enwi'r rhain yn weithdrefnau 'Gwasanaethau Ansawdd: Darparu Beth sy'n Bwysig'

Mae ein haelodau wedi cyfrannu at ystod eang o brosiectau rhanbarthol a chenedlaethol yn cynnwys:

- ✓ Adolygiad AGC/AGIC (CIW/HIW) o ofal iechyd pobl hŷn mewn cartrefi gofal yng Ngogledd Cymru
- ✓ Datblygu canllawiau cenedlaethol ar gomisiynu gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc gydag anghenion cymhleth a chanllaw ar fframweithiau ffioedd ar gyfer gofal cartref.

### I gael rhagor o wybodaeth:

#### **Maria Bell**

Rheolwr Busnes Rhanbarthol – Comisiynu Regional Business Manager - Commissioning

Ffôn / Tel: 07919 164933 / 01824 706011

E-bost / Email: [maria.bell@sirddynbich.gov.uk](mailto:maria.bell@sirddynbich.gov.uk) / [maria.bell@denbighshire.gov.uk](mailto:maria.bell@denbighshire.gov.uk)